# Asesu a chynllunio gwaith ysgrafellu cŵn

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag asesu a chynllunio gwaith ysgrafellu cŵn. Bydd angen i chi ystyried siâp y pen â’r math o gôt, gofynion y cleient, y dulliau i'w defnyddio i gyflawni'r canlyniad dymunol yn ogystal â'r offer â’r technegau y dylid eu defnyddio wrth wneud y gwaith.

Eich cyfrifoldeb chi yw monitro eich iechyd a'ch diogelwch eich hun, y ci a phawb sydd yn cael eu heffeithio gan eich gwaith.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol ar gyfer darparu eich dyletswydd gofal yn unol â deddfwriaeth bresennol iechyd a diogelwch anifeiliaid.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn gyfrifol am asesu a chynllunio gwaith ysgrafellu cŵn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
gweithio'n broffesiynol ac yn foesegol ac o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2.
gwneud eich gwaith i gyd yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
3. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig, polisïau sefydliadol â’r Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol
4. dewis a gweithredu mesurau hylendid a bioddiogelwch a chadarnhau eu bod yn cael eu cynnal
5. cadarnhau bod yr ardal waith ar gyfer ysgrafellu cŵn yn ddiogel, yn gadarn ac yn lân
6. asesu'r ffordd y gellir darparu ar gyfer anghenion lles y ci tra'i fod o dan eich dyletswydd gofal
7. arsylwi ac adnabod ymddygiad y ci a'i gofnodi lle bo angen
8. trafod y ci mewn ffordd sydd yn cynnal lles anifeiliaid, yn osgoi ymddygiad sydd yn achosi pryder o ran lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
9. asesu ymddangosiad y ci yn cynnwys y math o gôt, ei ben, ei gorff a siâp ei goesau i helpu i gynllunio'r gwaith ysgrafellu ar y ci
10. asesu cyflwr côt a chroen cŵn i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio gwaith ysgrafellu ar y ci
11. cynnal gwiriad iechyd o'r ci ac adrodd am unrhyw faterion i'r cleient, yn cynnwys cyngor i gael sylw milfeddygol os oes angen
12. trafod a chytuno ar y gofynion ar gyfer y gwaith sydd wedi ei gynllunio gyda'r cleient, yn cynnwys graddfa amser a chost
13. cynllunio'r gwaith sydd yn ofynnol i ysgrafellu'r ci
14. cadarnhau bod cofnodion yn cael eu cadw a'u storio fel sydd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
eich cyfrifoldebau proffesiynol fel ysgrafellwr cŵn a therfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2.
pwysigrwydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i gynnal cymhwysedd proffesiynol
3. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig, polisïau sefydliadol â'r Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol
5. pwysigrwydd gweithredu'r mesurau hylendid a bioddiogelwch cywir wrth ysgrafellu cŵn a sut gellir cyflawni'r rhain
6. pam y mae'n bwysig arsylwi ac asesu iaith corff y ci a pha arwyddion i chwilio amdanynt
7. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, sut dylid gwneud hyn a ble i gael cyngor ac arweiniad pan fo angen
8. mathau a nodweddion cotiau y cŵn yr ydych yn gweithio gyda nhw
9. sut i fynd at gŵn, eu trafod a'u hatal mewn ffordd sydd yn hybu lles anifeiliaid, yn osgoi ymddygiad sydd yn achosi pryder o ran lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
10. sut i asesu ymddangosiad y ci yn cynnwys y math o gôt a siâp y pen, y corff â'r goes i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio ysgrafellu'r ci
11. sut i asesu cyflwr côt a chroen ci a sut i adnabod problemau cyffredin
12. sut i gynnal a chofnodi gwiriad iechyd ci
13. anatomeg a ffisioleg ci er mwyn gallu cynnal gwiriad iechyd
14. gofynion y Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol mewn perthynas â hysbysu cleientiaid ynghylch annormaleddau a chyflyrau posibl (ond nid rhoi diagnosis) a phwysigrwydd atgyfeirio cleientiaid at filfeddyg
15. sut i gynllunio a chytuno ar y gwaith i gael ei wneud gyda'r cleient, yn cynnwys y raddfa amser â'r gost, a phwysigrwydd cael cydsyniad gwybodus
16. pam y mae angen torri i ffwrdd a thocio bras weithiau a pham y gallai oed, cyflwr a natur y ci ddylanwadu ar y penderfyniad

17. pwysigrwydd tynnu blew ychwanegol er mwyn hylendid y ci
18. dulliau tocio gofynnol sydd yn berthnasol i gôt y ci
19. y camau y dylid eu cymryd os byddwch yn torri y ci neu eich hun ar ddamwain
20. pwysigrwydd cynllunio'r adnoddau sydd yn ofynnol i wneud y gwaith yn cynnwys offer, cyfarpar, deunyddiau, llety ac arbenigedd addas
21. sut i wirio, glanhau a sterileiddio offer a chyfarpar â'r dulliau storio cywir
22. y cofnodion sydd angen eu cadw mewn perthynas ag asesu a chynllunio ysgrafellu cŵn a phwysigrwydd cwblhau'r rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

## Cwmpas/Ystod

**Golchi a glanhau'r mathau canlynol o gôt ci:**

1. gwlân
2. weiar
3. 
sidan
4. 
dwbl – hir a byr
5. llyfn

**Ysgrafellu'r siapiau pen canlynol:**

1. pen crwn
2. pen gydag aeliau rhanedig byr
3. pen gydag aeliau rhanedig hir
4. pen gydag aeliau sydd yn syrthio yn y canol
5. pen glân
6. wyneb glân

**defnyddio'r dulliau tocio canlynol:**

1. côt corff wedi ei dorri â siswrn
2. côt corff sylfaenol wedi ei stripio â llaw
3. côt uwch wedi ei stripio â llaw
4. côd ci adara wedi ei stripio a llaw
5. côt corff wedi ei dorri
6. siapiau coesau a thraed wedi eu torri â siswrn
7. cynffon wedi ei dorri â siswrn/wedi ei dorri neu gyfuniad
8. cyfuno

**Cynllunio'r gwaith yn unol â:**

1. chais y cleient
2. brîd o gi
3. ei ymddangosiad a'i gyflwr
4. 
dulliau tocio
5. 

adnoddau
6. llety ar gyfer y ci, cyn, yn ystod ac ar ôl ysgrafellu

* *

**Cyflawni'r gwiriad iechyd canlynol:**

1. traed, ewinedd a phadiau
2. cyflwr y clustiau
3. ceg, dannedd a deintgig
4.
croen a chôt
5.
parasitiaid mewnol ac allanol
6. llygaid
7. ardal yr organau cenhedlu â’r ardal dethol
8. chwarennau rhefrol
9. sgôr pwysau a chyflwr

## Geirfa

**Deddfwriaeth gyfredol lles anifeiliaid:**

- Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid
- Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon)
- Deddf Llawfeddygon Milfeddygol

Asesu a chynllunio gwaith ysgrafellu cŵn

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAnC47 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ysgrafellu cŵn |
| **Cyfres/Set** | Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | ci; ysgrafellu; côt; steil |